## PANEL PENODIADAU ARBENNIG

Cofnodion cyfarfod o'r Panel Penodiadau Arbennig a gynhaliwyd yn Ystafell Gynhadledd, Ty Russell, Y Rhyl dydd Mawrth, 25ain Chwefror, 2003 am 5.30 p.m.

## PRESENNOL

Cynghorydd J.A. Smith ( Cadeirydd), J. Butterfield a P.A. Dobb a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Personol.

## HEFYD

I. Jeffcott, J. Hamilton a V. Thornton (Riley Consulting); Pennaeth Personnel, Swyddog Personnel (L.M. Jones) a'r Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol.

## YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd Ymddiheuriadau gan y Prif Weithredwr.

### 1084 COFNODION

Cyflwynwyd Cofnodion y Panel Penodiadau Arbennig 18/02/03 (a gylchredwyd) ..

***PENDERFYNWYD*** *derbyn y Cofnodion a'u llofnodi gan y Cadeirydd.*

### 1085 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Penderfynwyd o dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972 gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes canlynol oherwydd gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig iddynt fel a ddiffinir ym Mharagraff 1, Rhan 1, Rhestr 12A, Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

### 1086 RHESTR FER - PENNAETH GWASANAETH (GWASANAETHAU OEDOLION)

Cyflwynodd Mr. I Jeffcott, Mr. J. Hamilton a Mrs. V. Thornton, ymgynghorwyr, ganlyniad yr asesiadau a gynhaliwyd ar 25ain Chwefror 2003, i grynhoi rhinweddau pob ymgeisydd ac ymateb i gwestiynau Aelodau.

Ystyriodd Aelodau rinweddau pob ymgeisydd a phenderfynwyd gwahodd y 3 ymgeisydd i ddod i gyfweliad ffurfiol ddydd Mawrth, 4ydd Mawrth, 2003.

***PENDERFYNWYD*** *gwahodd y 3 ymgeisydd am gyfweliad ffurfiol ddydd Mawrth, 4ydd Mawrth, 2003 am 2.30 p.m.*

Daeth y cyfarfod i ben am 6.55 p.m.

**************